



# GALAR-GAN

AR OL

## Y MOCHYN DU.



Holl drigolion broydd a bryniau  
 Dewch i wrando hyn o eiriau,—  
 Fe gewch hanes ryw hen FOCHYN,  
 A fu farw yn dra sydyn.

O! mor drwm ydym ni!  
 O! mor drwm ydym ni!  
 Y mae yma alar calon,  
 Ar ol claddu'r MOCHYN DU.

Beth oedd achos ei afiechyd?  
 Beth roes derfyn ar ei fywyd?  
 Ai maidd glas oedd achos angau  
 I'r hen fochyn i fyn'd adrau?

O mor drwm, &c.

Fe row'd mwy o faidd i'r Mochyn  
 Na all'sai'i fola bach i dderbyn;  
 Yn mhen 'chydig o fynyddau,  
 Dyna'r mochyn yn myn'd adrau.  
 O mor drwm, &c.

Rhedodd Deio i Lwyncelyn,  
 'Mofyn Matti at y Mochyn;  
 D'wedodd Matti wrtho'n union  
 Gall'sai'i roi ei heibio'n burion.  
 O mor drwm, &c.

Gweithiwyd iddo *fox* o dderi,  
 Wedi ei drimio a'i berarogli;  
 Ac fe weithiwyd bedd ardderchog  
 I'r hen Fochyn yn Carncoediog.  
 O mor drwm, &c.

'Mofyn *hearse* o Aberteil,  
 A cheffylau i'w gario fyny,—  
 Y ceffylau yn llawn *mourning*,  
 'Roll i ddangos parch i'r Mochyn.  
 O mor drwm, &c.

Y parchedig wên, Twm Griffy  
 Ydoedd yno yn pregethu;  
 Pawb yn sobr anghyffredin,  
 'Roll i ddangos parch i'r Mochyn  
 O mor drwm, &c.